***CYFLWYNIAD***

Mae gan Brifysgol Aberystwyth gampws bywiog gyda chymuned fawr, ac amrywiaeth o weithgareddau sy'n ymdebygu i gymuned tref. Mae hyn yn cynnig risg o achos neu nifer o achosion o glefyd trosglwyddadwy ymhlith ei haelodau staff a/neu fyfyrwyr.

Bydd gofyn i Brifysgol Aberystwyth gysylltu â Thimau Diogelu Iechyd lleol os bydd y Brifysgol yn dod yn ymwybodol o achosion a gadarnheir neu a amheuir o unrhyw glefydau trosglwyddadwy yn ymhlith aelodau o staff neu fyfyrwyr.

***CWMPAS***

Mae'r canllawiau hyn yn egluro trefniadau rheoli'r Brifysgol ar gyfer haint, atal a rheoli ac unrhyw achosion a gadarnheir neu a amheuir o unrhyw glefydau trosglwyddadwy yn ymhlith aelodau o staff neu fyfyrwyr.

Nod y canllawiau yw sicrhau'r canlynol:

- Ymgorffori rheolyddion haint, atal a rheoli, awyru, lefelau deiliadaeth, trefniadau glanhau, hyrwyddo brechu;
- Gallu adnabod clefydau trosglwyddadwy yn ein cymuned staff a myfyrwyr;
- Dulliau o fonitro clefydau trosglwyddadwy yn lleol, yn genedlaethol a thramor o fewn trefniadau presennol;
- Sianeli cyfathrebu ac atgyfeiriadau digonol ar waith yng nghymuned y Brifysgol;
- Trefniadau cefnogi effeithiol ar waith i aelodau o staff a myfyrwyr;
- Cynnal cysylltiadau clir rhwng y Brifysgol a rhanddeiliaid fel Timau Diogelu Iechyd lleol, Byrddau Iechyd a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd yr Awdurdod Lleol;
- Cysylltu â chynlluniau cysondeb busnes ar gyfer aflonyddwch oherwydd colli staff neu fyfyrwyr.

***CLEFYDAU TROSGLWYDDADWY***

Rhaid hysbysu awdurdodau iechyd cyhoeddus am glefydau o bwysigrwydd i iechyd y cyhoedd (y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel 'Clefydau Trosglwyddadwy') dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cymru) 2010. Ceir rhestr lawn o glefydau trosglwyddadwy yn Ffigur 1.

- Enceffalitis acíwt
- Hepatitis heintus acíwt
- Meningitis acíwt
- Poliomyelitis acíwt
- Anthracs
- Botwliaeth
- Brwselosis
- Colera
- Difftheria
- Twymyn enterig (teiffoid neu dwymyn parateiffoid)
- Gwenwyn bwyd
- Syndrom haemolytig wraemig (HUS)
- Dolur rhydd heintus gwaedlyd
- Malaria
- Y frech goch
- Septicaemia meningococcaidd
- Clwy'r pennau
- Y pla
- Y gynddaredd
- Rwbela
- Syndrom Resbiradol Acíwt Difrifol (SARS)
- Y dwymyn goch
- Y frech wen
- Tetanws
- Twbercwlosis
- Teiffws
- Twymyn haemorrhagig firaol (VHF)

- Clefyd streptococcaidd grŵp mewnwthiol A
- Clefyd y llengfilwyr
- Gwahanglwyf
- Y pas
- Y dwymyn felen

**Ffigur 1**

***GOFYNION ATAL A RHEOLI HEINTIAU***

***AWYRU***

Mae Rheoliad 6 yn Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a'r Gweithle 1992 yn ei gwneud yn ofynnol bod darpariaeth effeithiol ac addas yn cael ei gwneud i sicrhau bod pob gweithle caeedig yn cael ei awyru gyda lefel ddigonol o aer ffres neu wedi'i buro.

Mae Rheoliadau Adeiladu 2010, Cyfrol 2: Adeiladau ar wahân i breswylfeydd Gofyniad F1: Dulliau awyru yn ei gwneud yn ofynnol i gael ystod o ddulliau echdynnu a chyflenwi awyr iach ar gyfer ystafelloedd y gellir eu meddiannu mewn swyddfeydd ar ba bynnag un o'r canlynol fydd yn darparu'r gyfradd uchaf.

a. 10 litr yr eiliad i bob unigolyn.

b. 1 litr yr eiliad am bob m2 o arwynebedd llawr

Mewn ystafelloedd y gellir eu defnyddio ar draws yr ystâd, nod y Brifysgol yw darparu o leiaf 8 - 10 litr i bob unigolyn, oni bai bod gofynion penodol i gynyddu neu leihau'r lefelau awyru ar sail defnydd. Er enghraifft ystafelloedd arlwyo neu geginau, ystafelloedd planhigion neu anifeiliaid neu leoliadau sydd â gweithgareddau dwysedd uchel, canolfan chwaraeon.

Yn ystod y Pandemig, cynhaliodd y Brifysgol arolwg awyru mawr o'i ystâd addysgu gan gynnig gwaelodlin o berfformiad awyru, gyda chamau adferol yn cael eu rhoi ar waith fel atgyweirio ffenestri, gosod ffaniau allanol neu buryddion aer. Bydd angen strategaeth awyru o welliant cynaliadwy i'r perfformiad awyru.

Rheolir gwybodaeth awyru drwy fonitorau CO2 sefydlog a chludadwy, a gaiff eu monitro a chymerir camau lle bo angen gan yr Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd. Mewn mannau gydag awyru naturiol, gofynnir i gydweithwyr fonitro monitorau CO2 lleol, ac agor ffenestri os yw'r mesuriad dros 800 rhan mewn miliwn (PPM) am gyfnod byr i sicrhau newid yn yr aer a'u cau os oes angen ar gyfer cysur thermol. Dylai agor ffenestri'n rheolaidd am o ddeutu deng munud bob awr helpu i gyflawni newid aer rhesymol. Mae angen adroddiad awyru ar berfformiad yn y Grŵp Gweithrediadol Iechyd a Diogelwch ddwywaith y flwyddyn oni bai y bydd eu hangen yn amlach yn sgil achosion o glefyd trosglwyddadwy.

***NIFER DEILIADAETH YSTAFELLOEDD***

Yn ôl Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a'r Gweithle, Rheoliad 10, rhaid i bob ystafell lle mae pobl yn gweithio gael digon o arwynebedd llawr, uchder a gofod nas defnyddir, at ddibenion iechyd, diogelwch a llesiant. Nid yw hyn yn berthnasol i ystafelloedd a ddefnyddir at ddibenion darlithoedd, cyfarfodydd a dibenion eraill tebyg.

Rhaid i'r Brifysgol ystyried yr eitemau canlynol wrth asesu deiliadaeth ystafelloedd ledled yr ystâd.

- Dimensiwn yr ystafell, gofyniad Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a'r Gweithle o 11m³ (uchafswm uchder nenfwd o 3m²) ceir rhagor o wybodaeth yn y canllawiau cyffredinol https://www.aber.ac.uk/cy/hse/documents/#guidance;
- Data perfformiad awyru ar gyfer yr ystafell;
- Y math o weithgaredd a gyflawnir;
- Gosodiad a gofynion dodrefnu'r ystafell;
- Uchafswm nifer yn yr adeilad ar gyfer gwacau mewn argyfwng;
- Profiad y Myfyriwr

***TREFNIADAU GLANHAU***

Mae Rheoliad 9 yn Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a'r Gweithle yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithle a'r dodrefn, gosodiadau a ffitiadau ynddo gael eu cadw'n ddigon glân. Rhaid i arwynebau lloriau, waliau a nenfydau pob gweithle y tu mewn i adeiladau allu cael eu cadw'n ddigon glân. Cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, ni chaniateir i ddeunyddiau gwastraff gronni mewn gweithle ar wahân i mewn cynwysyddion addas.

Fel arfer safonol, mae Timau Glanhau a Phorthora'n ymgymryd â glanhau mannau cyffwrdd yn ddyddiol ar draws adeiladau'r Brifysgol (gallai diwrnodau gweithrediadol amrywio yn dibynnu ar yr adeilad a'i ddefnydd).

Bydd ardaloedd o brysurdeb cynyddol fel Canolfan y Celfyddydau, Undeb y Myfyrwyr, y Ganolfan Chwaraeon a Llyfrgell Hugh Owen yn elwa o lanhau mannau cyffwrdd ychwanegol yn dibynnu ar ddefnydd neu amserlenni digwyddiadau.

Bydd glanhau mannau cyffwrdd yn canolbwyntio ar arwynebau cymunedol i'r cyhoedd nad ydynt yn hunanlanhau er enghraifft dolenni drysau, platiau gwthio, switshis a chanllawiau.

Mae arwynebau eraill yn agored i wiriadau digymell a glanhau ymatebol gyda glanhau dwfn cyfnodol.

Rhoddir pwyslais ar hylendid dwylo a mesurau hunanlanhau.

Ystyrir cynyddu glanhau mannau cyffwrdd mewn ardaloedd lle mae'r amserlen yn dangos cyfraddau uwch o ymwelwyr (yn amodol ar faint o adnoddau sydd ar gael).

Bydd y fethodoleg ar gyfer glanhau mannau cyffwrdd yn agored i adolygiad, asesiad risg ac ystyried canllawiau HSE sydd wedi'u cyhoeddi, ac arfer gorau'r sector ar gyfer atal a rheoli heintiau.

| **Stoc o ddiheintydd dwylo i'w gosod yn y lleoliadau canlynol:** | **Cadachau diheintio i'w gosod yn y lleoliadau canlynol:** |
|---|---|
| Mynedfeydd ac allanfeydd adeiladau | Mannau addysgu a dysgu |
| Darllenfeydd | Ystafelloedd cyfarfod |
| Cerbydau (argymhellir drwy asesiad risg) | Mannau cefn tŷ i gefnogi hunanlanhau (ystafelloedd llungopïo, rhannu swyddfeydd, ceginau bach ac ati) |
| Gwaith maes (argymhellir drwy asesiad risg) | Cerbydau (argymhellir) |

I gael rhagor o wybodaeth ar lefelau glanhau ym Mhrifysgol Aberystwyth ewch i

www.aber.ac.uk/cy/efr/facilities/cleaning-portering

***STRATEGAETHAU IECHYD A LLES STAFF A MYFYRWYR***

Bydd y Brifysgol yn cefnogi Llywodraeth Cymru a Prifysgolion Cymru gydag ymgyrchoedd iechyd a diogelwch perthnasol bob blwyddyn, fel meningitis, brech mwnci ac ati.

Drwy ein strategaeth iechyd a lles staff a myfyrwyr, bydd y Brifysgol yn:

- cynnig ymgyrchoedd ymwybyddiaeth rheolaidd i hyrwyddo a chynnal heintio, atal a rheoli clefydau trosglwyddadwy fel ei ddal, ei daflu, ei ddifa, neu hylendid dwylo da ac ati.
- annog pobl sy'n teimlo'n sâl gydag annwyd trwm, gwres uchel, peswch newydd parhaus i aros gartref i weithio neu astudio os ydynt yn ddigon da i wneud hynny.

***HYRWYDDO BRECHU***

Anogir staff, myfyrwyr ac ymwelwyr tymor hir â'r Brifysgol i gael eu brechu i ddiogelu'r gymuned. Iechyd Cyhoeddus Cymru - Gwybodaeth am Frechu

Dylid annog staff a lleoliadau tymor hir (dros 12 wythnos) drwy'r llythyr o groeso neu gynefino yn y Brifysgol.

Dylid annog myfyrwyr drwy ddiwrnodau ymgeiswyr, llythyrau croeso neu gynefino yn y Brifysgol.

Bydd cyswllt yn cael ei wneud gyda Gwasanaeth Meddygon Teulu lleol i gynyddu cofrestriad myfyrwyr gyda meddyg teulu ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Trefnir clinigau *pop-up* i fyfyrwyr yn ystod wythnos y glas ar ddechrau'r tymor ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

**ARWYDDION**

Bydd y campws yn adnewyddu arwyddion yn rheolaidd i annog mesurau atal haint fel golchi dwylo, adnoddau curo ffliw a chyfathrebu perthnasol arall ar bosteri.

***TEITHIO***

Cyfeiriwch at y Polisi Teithio (https://www.aber.ac.uk/cy/hse/documents/), sy'n galw am asesiad risg sy'n cynnwys gwiriadau'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad ar fynediad i wledydd ar gyfer brechiadau neu gamau penodol yn ymwneud â chlefydau trosglwyddadwy.

***UNIGOLION AGORED I NIWED***

Anogir staff a myfyrwyr i drafod unrhyw gyflyrau meddygol penodol sy'n arwain at fod yn fwy agored i ddal clefydau trosglwyddadwy. Gellir dod o hyd i gyngor a chefnogaeth ar gyfer asesiad risg i ystyried addasiadau rhesymol gan Adnoddau Dynol, Iechyd Galwedigaethol a/neu'r tîm Iechyd Diogelwch ac Amgylchedd ar hasstaff@aber.ac.uk neu 2073.

***HYSBYSU***

Bydd cynefino staff a myfyrwyr yn cynnwys gwybodaeth ar glefydau trosglwyddadwy a'r gofyniad i gofnodi ar systemau absenoldeb er mwyn hysbysu'r Brifysgol.

Mae'r ddogfen cefnogi ein myfyrwyr gyda'n gilydd yn cynnwys gwybodaeth i staff ar sut i hysbysu am glefyd trosglwyddadwy.

Dylai'r holl staff a myfyrwyr gofnodi eu diagnosis o Glefyd trosglwyddadwy ar y system cofnodi absenoldeb.

Staff - ABW

Myfyrwyr - Absenoldeb Awdurdodedig: Cofrestrfa Academaidd Prifysgol Aberystwyth

Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol o'r rhestr lawn o glefydau trosglwyddadwy sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol hysbysu'r awdurdod iechyd cyhoeddus perthnasol, fel y nodir yn Adran 3 a hyrwyddo'r hysbysu drwy'r system absenoldeb berthnasol ar gyfer achosion posibl neu a gadarnheir.

Os daw'r Brifysgol i wybod am achos posibl o glefyd trosglwyddadwy drwy gyfathrebiad neu gan o aelod o deulu'r unigolyn sydd â diagnosis, cydweithiwr, y Tîm Diogelu Iechyd lleol a/neu Feddygon Teulu, dylid cwblhau cofnod â llaw ar y system absenoldeb cyn gynted â phosibl.

*Achosion yn cynnwys myfyrwyr*: Cysylltu â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd ar unwaith ar estyniad 1761 neu 2087;
Achosion yn cynnwys aelodau o Staff: Cysylltu ag Adnoddau Dynol ar unwaith ar estyniad 8555.

Ar ôl derbyn hysbysiad o achos posibl neu a gadarnheir, dylai staff yn y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd ac Adnoddau Dynol gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl ar unwaith i ganfod y ffeithiau. Gallai hyn gynnwys:

- Y math o salwch – defnyddiwch Iechyd GIG i ddeall y salwch a llwybrau trosglwyddo. Mae sicrhau cefnogaeth, cymorth a lles yn allweddol i ddechrau'r sgwrs hon. Sut mae'n teimlo? Oes angen unrhyw gyflenwadau?
- Oes diagnosis wedi'i roi? Pa gyngor mae'r meddyg teulu wedi'i roi?
- Ydy'r staff neu'r myfyriwr wedi cysylltu â'r Tîm diogelu iechyd lleol? Os ydy, pa gyngor sydd wedi'i roi?
- Ydy'r myfyriwr wedi hysbysu cyd-letywyr mewn neuadd breswyl neu dŷ amlfeddiannaeth?
- Ydy'r unigolyn gartref, a phryd oedd y tro diwethaf iddyn nhw fod ar y campws?

Caiff y wybodaeth ei rhannu gyda chynrychiolydd o'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd, Adnoddau Dynol a'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd. Ystyrir asesiad o'r math o glefyd, llwybr trosglwyddiadau posibl, data perthnasol fel glanhau tanciau dŵr, awyru, a/neu drefniadau glanhau. Bydd aelod enwebedig o'r grŵp yn cysylltu â'r Tîm Diogelu Iechyd am gyngor ac i rannu'r asesiad cychwynnol.

***Y TÎM DIOGELU IECHYD LLEOL***

Dylai'r Brifysgol ddefnyddio'r manylion hyn i wneud yr hysbysiad cychwynnol ar ôl derbyn achosion posibl neu a gadarnheir o unrhyw glefydau trosglwyddadwy yn cynnwys aelodau o staff a myfyrwyr.

Manylion cyswllt brys y Tîm Diogelu Iechyd lleol yw:

*Yn ystod Oriau Swyddfa (9:00am-5:00pm)*: 01792 607 387
*Y tu allan i Oriau Swyddfa (drwy Reolaeth Ambiwlans)*: 03001 239 236

Bydd y Brifysgol yn gohirio unrhyw gamau pellach hyd nes y'i hysbysir gan y Tîm Diogelu Iechyd. Bydd y Brifysgol yn parhau gyda mesurau heintiau safonol, yn cynyddu mesurau presennol neu'n dechrau cynllun sy'n ymateb i achosion ar y cyd â'r Tîm Diogelu Iechyd lleol ar sail eu dadansoddiad o wybodaeth wybyddus, gan gynnwys ymgynghori â'r timau clinigol sy'n rheoli'r achosion.

Er mwyn rhoi'r cynllun achosion ar waith, dylid cynnull Tîm Rheoli Argyfwng ar unwaith.

***TÎM RHEOLI ARGYFWNG***

Awgrymir yr aelodaeth isod i'r Tîm Rheoli Argyfwng ar gyfer rhoi'r weithdrefn hon ar waith:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd (achosion myfyrwyr) / Pennaeth Adnoddau Dynol (achosion staff) |
| Aelodau Eraill | Rheolwr Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd |
| | Swyddog Cyfathrebu |
| | Cyfarwyddwr y Swyddfa Ryngwladol (achosion myfyrwyr rhyngwladol) |
| | Pennaeth Preswylfeydd a Datblygu Preswylfeydd (achosion myfyrwyr mewn llety Prifysgol) |
| | Pennaeth Gwasanaethau Masnachol (achosion myfyrwyr) |
| | Cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr (achosion myfyrwyr) |
| | Cynrychiolydd Undeb Llafur (achosion staff) |
| | Cynrychiolydd Tîm Diogelu Iechyd Canolbarth a Gorllewin Cymru (os oes angen) |
| | Cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (os oes angen) |

Gellir cynnwys aelodau ychwanegol yn ôl doethineb y Cadeirydd, fel y pennir yn briodol.

Mewn achosion lle nad oes modd hwyluso busnes yn ôl yr arfer neu os oes angen ymateb strategol, mae'n debygol y bydd angen rhoi Cynllun Cysondeb Busnes y Brifysgol ar waith yn llawn, fydd yn golygu cynnwys y Tîm Ymateb Strategol Brys.

***CYFRIFOLDEBAU'R BRIFYSGOL***

Bydd y Tîm Rheoli Argyfwng yn monitro, ac os oes angen, yn gweithredu unrhyw ymatebion gweithrediadol ar ran y Brifysgol.

I gefnogi'r Tîm Diogelu Iechyd gyda'u cyfrifoldebau, gall fod disgwyl i'r Brifysgol ymgymryd â gweithgareddau a allai gynnwys, ond na fydd yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Sefydlu llinellau cyfathrebu rhwng y sefydliadau perthnasol;
- Rhoi cyngor a geir gan y Tîm Diogelu Iechyd, y Bwrdd Iechyd Lleol a/neu Wasanaeth Diogelu'r Awdurdod Lleol ar waith yn ymarferol;
- Cyfathrebu natur y digwyddiad/achos i gymuned ehangach y Brifysgol (h.y. staff, myfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd);
- Sefydlu llinell gymorth y Brifysgol;
- System 'bydi' i fyfyrwyr sâl o fewn y Brifysgol ac mewn llety preifat. Mewn system 'bydi', anogir yr holl fyfyrwyr i ofalu am eu lles ei gilydd, a hysbysu rhywun os ydynt yn teimlo'n sâl, er mwyn gallu eu monitro'n rheolaidd a cheisio sylw meddygol prydlon os yw eu cyflwr yn dirywio;
- Hwyluso canfod achosion a'u cysylltiadau e.e. cynorthwyo gydag olrhain cysylltiadau;
- Cysylltu â theulu a ffrindiau (lle bo angen) er y bydd y Tîm Diogelu Iechyd a/neu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud hyn yn y rhan fwyaf o achosion.

Gan ddibynnu ar natur benodol pob digwyddiad neu achos, gallai fod angen pennu camau penodol eraill ymhlith aelodau'r Tîm Rheoli Argyfwng. Bydd rhestr weithredu generig y gellir ystyried ei defnyddio yn dibynnu ar

amgylchiadau penodol a graddfa'r digwyddiad ar gael ac yn cael ei chadw gyda'r dogfennau Cysondeb Busnes, os bydd angen.

***CYFRIFOLDEBAU'R TÎM DIOGELU IECHYD***

Yn unol â gofynion dogfen Iechyd Cyhoeddus Cymru *Cynllun Wrth Gefn i Brifysgolion a Cholegau Preswyl ar Glefydau Trosglwyddadwy*, mae cyfrifoldebau'r Tîm Diogelu Iechyd lleol yn cynnwys:

- Derbyn hysbysiadau am achosion posibl neu a gadarnhawyd o glefydau hysbysadwy gan y Brifysgol;
- Cydlynu'r ymateb aml-asiantaeth i'r digwyddiad/achos;
- Darparu cyngor diogelu iechyd ar gyfer y digwyddiad;
- Trefnu ar gyfer profion ar samplau mewn labordy fel bo'r angen;
- Cyflawni gwaith i ganfod achosion ac olrhain cysylltiadau;
- Trefnu imiwneiddio a/neu broffylacsis i achosion, cysylltiadau ac eraill yr ystyrir eu bod mewn perygl;
- Arwain ar gyfathrebu aml-asiantaeth gan gynnwys y cyfryngau.

Disgwylir i'r Brifysgol gefnogi ymgymryd â'r ymatebion hyn lle bo'n bosibl. Er mwyn ystyried bod unrhyw arweiniad neu gyngor a roddir gan y Tîm Diogelu Iechyd yn cael ei ystyried a'i ymgorffori mewn unrhyw ymateb gan y Brifysgol, gallai fod yn briodol i gynrychiolwyr o fyrddau ac awdurdodau iechyd lleol priodol fod yn aelodau o dimau ymateb y Brifysgol, sef y Tîm Rheoli Argyfwng a/neu'r Tîm Ymateb Strategol Brys. Gallai cynrychiolwyr priodol gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Cynrychiolydd o'r tîm Diogelu Iechyd lleol;
- Cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd Lleol;
- Cynrychiolydd o Wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr Awdurdod Lleol.

***CYFATHREBU***

Mae datblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu effeithiol yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus y weithdrefn hon. Tra bod y Tîm Diogelu Iechyd lleol, y Bwrdd Iechyd lleol a/neu Wasanaeth Diogelu'r Awdurdod Lleol yn darparu cyngor diogelu iechyd i'r Brifysgol ar y digwyddiad neu'r achos, mae'n rhaid cyfleu'r wybodaeth hon yn effeithiol i randdeiliaid yr effeithir arnynt.

Caiff strategaeth gyfathrebu generig, y gellir ei haddasu i amgylchiadau a graddfa benodol y digwyddiad, ei storio gyda'r dogfennau cysondeb busnes. Bydd y mathau o ystyriaethau y dylai'r Tîm Rheoli Argyfwng eu hadolygu yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gyhoeddi deunydd a sicrhau ei fod ar gael, gohebiaeth e-bost, cyswllt ar y cyfryngau, llinell gymorth ymholiadau ac ati.

Rhaid i'r Brifysgol hefyd ystyried effaith ar staff a myfyrwyr nad yw'r digwyddiad neu achos wedi effeithio'n uniongyrchol arnynt. Gellir rhoi manylion cyswllt Rhaglen Cymorth Gweithwyr y Brifysgol, a gyflenwir ar hyn o bryd gan Care First, i'r rheini yr effeithiwyd arnynt. [Rhaglen Cymorth Gweithwyr - Care first: Adnoddau Dynol, Prifysgol Aberystwyth]

***DARLLEN PELLACH***

Iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle. Rheoliadau (Iechyd Diogelwch a Lles) yn y Gweithle 1992. Cymeradwywyd. Rheoliadau Cod Ymarfer a chanllawiau [Iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle - L24 (hse.gov.uk)]

[Isadran Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru – Hysbysu am Glefydau Heintus yng Nghymru]